Cyngor Dinas Bangor

Cofnodion y Pwyllgor Cyllid a Monitro

Dydd Llun 14eg Medi 2026, Neuadd y Penrhyn, 17:00

Yn bresennol

Cynghorwyr:	Cynghorwyr: John Wynn Jones (Cadeirydd), Gwynant Roberts (Is-Gadeirydd), Delyth Russell, Medwyn Hughes, Huw Wyn Jones, Gareth Parry, Eirian Williams Roberts, Samuel Njoku
Swyddogion:	Lisa Goodier, Cyfarwyddwr Dinesig Dros dro Carwyn Davies, Swyddog Gweinyddol
Eraill:	Y Cynghorydd Lisa Toth
Ymddiheuriadau:	Cynghorwyr: Jackie Spence, Steve Bell, John Wyn Williams
Absennol heb ymddiheuriad:	-

Dechreuodd y cyfarfod am 17:00.

Eitem	Cyfeirnod	Gweithredu
1.		**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr: Jackie Spence, Steve Bell, John Wyn Williams
2.		**Datganiad o Fuddiant Ariannol neu Gysylltiad Personol:** Dim.
3.		**Cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyllid a Monitro dyddiedig 29.07.26** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2026 fel rhai cywir.
4.		**Ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion blaenorol nad ydynt wedi'u cynnwys mewn man arall ar yr agenda** Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dinesig Dros dro ddiweddariad ar faterion a godwyd o gofnodion y pwyllgor blaenorol. - Roedd yr Aelodau wedi gofyn am gyflwyno system rifo i ganiatáu adnabod anfonebau'n hawdd pan gânt eu trafod yn fanylach gan y Pwyllgor. - Trafodwyd gweithredu'r system gyfrifyddu newydd, Rialtas Omega, ynghyd â system archebion prynu fel rhan o'r pecyn, fel ffordd o olrhain gwariant yn haws ac yn fwy tryloyw. - Mewn perthynas â Blachere Illuminations a'r Goleuadau Nadolig, roedd swyddogion wedi sicrhau cyfarfod gyda Blachere Illuminations yr wythnos flaenorol. Yn dilyn y cyfarfod, nid oedd copi o'r cytundeb rhwng Blachere Illuminations a'r Cyngor wedi dod i law eto.

Blaenlythrennau'r Cadeirydd: .....

- Roedd yr aelodau wedi gofyn yn y cyfarfod blaenorol am dalu anfonebau gan gyflenwyr, fel Huws Gray, yn unigol yn hytrach nag mewn taliad swmp misol. Cadarnhawyd y byddai hyn yn cael ei weithredu o hyn ymlaen.

- Cytunwyd y dylid rhoi cyflenwyr hirdymor neu filiau rheolaidd, fel Dŵr Cymru, ar Ddebyd Uniongyrchol lle bo'n briodol.

- Gofynnwyd am arolwg cyflwr ar gyfer Toiledau Cyhoeddus y Garth cyn eu caffael gan Gyngor Gwynedd. Cadarnhawyd nad oedd arolwg o'r fath wedi'i gael gan Gyngor Gwynedd cyn y caffaeliad. Mae'r Cyngor wedi bod yn gyfrifol am waith atgyweirio ac adfer i'r toiledau cyhoeddus ers hynny.

- Roedd yr aelodau wedi gofyn am gopi o adroddiad arolwg cyflwr YGC er mwyn iddo allu ei graffu i ddeall y costau ariannol sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw parhaus ar Bier y Garth. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor i graffu arno yn y cyfarfod hwn.

- Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei baratoi gyda Ffrindiau Pier Garth Bangor i'w galluogi i weithredu'r Pier a thrin arian a godir wrth y ciosg wrth y fynedfa. Mae hyn yn parhau i gael ei baratoi ar y cyd â Ffrindiau Pier Garth Bangor.

- Roedd cytundeb rhwng Ynni Ogwen a Chyngor Dinas Bangor yn parhau i fod heb ei gwblhau ac roedd ei angen er mwyn i'r Pwyllgor allu craffu ar ei gynnwys a'i ddeall.

Mynegodd yr aelodau bryder nad oeddent wedi cael gwybod, cyn i'r materion hyn gael eu dwyn gerbron y Pwyllgor, fod rhai camau gweithredu yn parhau i fod heb eu cymryd.

5. **Derbyn adroddiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Dros Dro**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dinesig Dros dro drosolwg o sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, gan gynnwys ei gyfrifon banc a'i gyfrifon wrth gefn.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn gallu cael gafael ar falansau tri chyfrif elusennol hanesyddol a bod camau'n cael eu cymryd i geisio mynediad at y cyfrifon hyn.

Gweithredu: Y Cyfarwyddwr Dinesig Dros dro i ddarparu'r datganiadau banc perthnasol i Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Monitro i'w hadolygu a'u llofnodi.

Gweithredu:- Gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig Dros dro archwilio a ellid torri glaswellt yr holl dir sy'n eiddo i Gyngor Dinas Bangor yn fewnol er mwyn sicrhau arbedion.

6. **Adolygu ac argymell i'r Cyngor Llawn llofnodwyr banc ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/27**

Er mwyn sicrhau gwydnwch prosesau bancio'r Cyngor, gofynnodd y Cyfarwyddwr Dinesig Dros dro am aelodau pellach i'w hychwanegu at y mandad bancio ar gyfer y flwyddyn ddinesig.

Penderfynwyd:- Argymell i'r Cyngor Llawn fod y Maer a'r Dirprwy Faer presennol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/27 yn dod yn llofnodwyr banc.

7. **Adolygu ac argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol diwygiedig 2026 (Cymru)**
Dosbarthwyd copi o'r Rheolau Sefydlog Enghreifftiol diwygiedig 2026 (Cymru) ymlaen llaw i'r aelodau cyn y cyfarfod.

Craffwyd ar y modelau o reolau sefydlog, a gwnaed argymhellion ar gyfer newidiadau gan yr aelodau.

Penderfynwyd:- Argymell mabwysiadu Rheolau Sefydlog Enghreifftiol diwygiedig 2026 (Cymru) i'r Cyngor Llawn.

8. **Adolygu ac argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol Enghreifftiol Diwygiedig ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru (Un Llais Cymru)**
Dosbarthwyd copi o'r Rheoliadau Ariannol Enghreifftiol diwygiedig ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru (Un Llais Cymru) ymlaen llaw i'r aelodau cyn y cyfarfod.

Craffwyd ar y modelau o reolau sefydlog, a gwnaed argymhellion ar gyfer newidiadau gan yr aelodau.

Penderfynwyd: Argymell mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol Enghreifftiol diwygiedig ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru (Un Llais Cymru) i'r Cyngor Llawn.

9. **Adolygu a chymeradwyo'r Amserlen Taliadau a Throsglwyddiadau**
Cyflwynwyd amserlen o daliadau i'w gwneud a thaliadau ôl-weithredol ar gyfer Gorffennaf, Awst a Medi 2026 i'r Pwyllgor i'w hystyried.

Cyfanswm y taliadau i'w gwneud a'r gymeradwyaeth ac argymhelliad ôl-weithredol i'r Cyngor Llawn oedd £44,740.89 gan gynnwys TAW.

Penderfynwyd: Cymeradwyo'r Rhestr Daliadau a Throsglwyddiadau, a bod y taliadau ôl-weithredol sy'n gyfanswm o £44,740.89 gan gynnwys TAW yn cael eu hargymell i'r Cyngor Llawn i'w cymeradwyo.

10. **Adolygu a mabwysiadu'r ffurflen ddrafft ar gyfer Cyflenwyr Cyn-gymeradwy**
Ystyriodd y Pwyllgor y Ffurflen Gyflenwyr Cyn-gymeradwy ddrafft a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Dinesig Dros dro. Trafododd yr aelodau gynnwys y ffurflen arfaethedig a mynegwyd y farn bod y ffurflen yn rhy gyfyngol yn ei fformat presennol ac na ddylid ei mabwysiadu ar hyn o bryd.

Penderfynwyd: Y dylai'r Cyfarwyddwr Dinesig Dros dro ganfod a oes gan Gyngor Gwynedd ffurflen gyflenwyr cyn-gymeradwy debyg y gallai'r Pwyllgor ei hystyried.

Daeth y cyfarfod i ben am: 18:19

Llofnodwyd gan: **…….**

Dyddiad: **…….**